



Ein Polisi Presenoldeb



Yma pob dydd, Dyna'r gorau fydd!

Mae unrhyw absenoldeb o'r ysgol yn ymharu ar gynnydd eich plentyn. Dylai fod absenoldeb pan mae unigolyn ynwirioneddol sâl. Fe ddylai pob disgybl fynychu'r ysgol pob dydd er mwyn cyrraedd eu potensial.

P O B

**DIWRNOD YSGOL
YN CYFRI**





Gwyliau Teulu



Dim ond 190 diwrnod stadudol o ysgol sydd yna mewn un blwyddyn. Mae 175 diwrnod (penwythnosau & gwyliau ysgol) ar gael ar gyfer gwyliau na fyddai yn cael effaith negyddol ar addysgu eich plentyn.

Gofynnwn i rieni beidio a chymryd gwyliau yn ystod tymor ysgol os yn gallu, ond gall y pennaeth awdurdodi hyd at 10 diwrnod mewn blwyddyn acedemaidd. Fydd rhaid i chi yrru nodyn i'r ysgol drwy defnyddio y linc isod i gofyn am caniatad.


Y Pennaeth fydd yn gwneud y penderfyniad a dylai ystyried y ffactorau cyfrannol canlynol:

- Amser o'r flwyddyn.
- Hyd yr amser.
- Canran gyffredinol presenoldeb.
- Effaith ar ddysgu'r plentyn

Os yw presenoldeb eich plentyn yn wael yna bydd gwyliau yn ystod y tymor yn anawdurdodedig.

Cliciwch ar y ddolen isod am ffurflen gais Gwyliau

[CLICK HERE](#)





Absenoldeb wedi'i Awdurdodi

Pan mae'r ysgol yn awdurdodi absenoldeb plentyn o ganlyniad i:

- Salwch
- Sefyllfa deuluol eithriadol
- Apwyntiad meddygol pwysig
- Dwirnodau crefyddol
- Gwyliau hefo caniatad yr ysgol

Os yw eich plentyn yn absennol oherwydd salwch sicrhewch eich bod yn ffonio'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb cyn 9.30y.b. ar 01352 700384 neu ebostiwrch: postglanrafon@hwbcymru.net

Os nad yw rhieni yn rhoi gwybod i'r ysgol fe fydd yr ysgol yn:

- Cysylltu gyda'r rhiant trwy ffôn.
- Ffonio unrhyw gysylltiad sydd ar y rhestr.

Os nad ydy'r ysgol yn gallu cysylltu efo neb fe fyddwn yn cysylltu gyda'r Gweithiwr cymdeithasol neu ymweld â'r cartref.



Absenoldeb heb ei Awdurdodi

Nid yw absenoldeb ar gyfer y canlynol yn cael ei awdurdodi:


- Anhwylder bychan—gall yr ysgol roi meddyginiaeth i ddisgyblion gyda chaniatad rhieni.
- Gwyliau heb ganiatad gan yr ysgol
- Penblwyddi neu ymweliadau dydd.
- Rhieni yn disgwyl am weithwyr
- Methu cyrraedd yr ysgol
- Siopa
- Edrych ar ôl brodyr a chwiorydd
- Hwyr yn aml

Gosod Targed

Mae gofyniad statudol i bob ysgol osod targed presenoldeb i'w cytuno gan y llywodraethwyr yn flynyddol. Gosodir y targedau yma trwy drafodaeth â'r

Awdurdod Lleol

Ein targed yw 96%



**Os yw presenoldeb eich plentyn yn disgyn yn is na 95% yna fe fydd yr ysgol yn cysylltu gyda chi.
Mae'r ysgol yn monitor absenoldeb yn aml**

Mae yna **175 diwrnod** ddi-ysgol mewn blwyddyn i dreulio gyda teulu, ymweliadau, gwyliau a apwyntiadau

<u>190</u> (380 o sesiwn) 190 diwrnod i addysg eich plentyn	<u>180</u> (360 sesiwn) Diwrnod o addysg	<u>171</u> (342 sesiwn) Diwrnod o addysg	<u>161</u> (322 sesiwn) Diwrnod o addysg	<u>152</u> (304 sesiwn) Diwrnod o addysg	<u>143</u> (268 sesiwn) Diwrnod o addysg
100%	95%	90%	85%	80%	75%
GWYCH Cyfle gorau o lwyddiant. Yn cael eich plentyn i ddechrau'n deg.		PRYDER Llai o siawns o lwyddo. Yn ei gwneud hi'n anoddach gwneud cynnydd		PRYDER DIFRIFOL Ddim yn deg ar eich plentyn. Camau cyfreithiol posibl.	

Os ydych yn poeni am presenoldeb eich plentyn, plis cysylltwch aelod o staff yr ysgol.